Rhwydwaith
CYMUNEDAU MWY DIOGEL CYMRU
WALES SAFER COMMUNITIES
Network

cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk
Dydd Iau 27 Chwefror 2025

**Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru**
**Ymateb i alwad Senedd Cymru am dystiolaeth o Gydlyniant Cymdeithasol**
Cau 14 Chwefror - estyniad a ganiateir tan fis Chwefror 28 2025

Gweler ymateb Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru i alwad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chynhwysiant am dystiolaeth o Gydlyniant Cymdeithasol.  Lluniwyd yr ymateb hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol ar draws Cymru, gyda mewnbwn sylweddol gan Dîm Cydlyniant Cymunedol Canolbarth a De Orllewin Cymru a Gogledd Ddwyrain Cymru (Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych).

Sefydlwyd Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru yn Ionawr 2021 yn dilyn argymhellion Adolygiad Gweithio Gyda'n Gilydd i greu Cymunedau Mwy Diogel Llywodraeth Cymru.  Nod y Rhwydwaith yw dod yn llais strategol ar gyfer diogelwch cymunedol yng Nghymru, gan gydweithio i gefnogi partneriaeth diogelwch cymunedol a dylanwadu ar siapio a datblygu polisi cenedlaethol ac ymarfer lleol.

## Y problemau allweddol sy'n cael effaith ar gydlyniant cymunedol yng Nghymru

**Unigedd a Hygyrchedd Gwasanaethau:**  Mae nifer o gymunedau gwledig yn wynebu heriau o ran cael mynediad at wasanaethau, a allai arwain at eithrio cymdeithasol ac unigedd, yn arbennig ar gyfer cymunedau lleiafrifoedd ethnig, cymunedau LHDTC+, ceiswyr lloches a phobl hŷn.

Mae gwasgaru ceiswyr lloches i ardaloedd gwledig yn arwain at heriau o ran integreiddio, lle mae isadeiledd a rhwydweithiau cefnogaeth yn brin.  Er bod Cynghorau'n gweithio'n galed i gynnig cefnogaeth, mae cysylltiadau cludiant a mynediad at amwynderau megis clybiau ieuenctid, gwasanaethau meddyg teulu neu ganolfannau dydd yn enghreifftiau o'r heriau a wynebir.

Fodd bynnag, gall pobl deimlo'n unig neu'n ddigyswllt mewn unrhyw gymuned ac mae peryglon posibl ar gyfer unigolion sy'n cilio o gymdeithas ac yn chwilio am ddylanwadau eraill, megis gwefannau neu ystafelloedd sgwrsio ar-lein.  Caiff safbwyntiau eithafol a gaiff eu hannog gan syniadau asgell dde eithafol neu asgell chwith eithafol eu monitro'n agos.  Mae meysydd eraill o eithafiaeth sy'n peri pryder cynyddol yn cynnwys unigolion sy'n ystyried eu hunain fel 'Incels' (neu'n anweddog yn anwirfoddol), sy'n credu bod dynion yn wynebu argyfwng ac yn gwrthwynebu ffeministiaeth.  Maent yn aml yn derbyn, a hyd yn oed yn esgusodi trais yn erbyn merched.

Nid oes un peth yn achosi unigedd, radicaliaeth neu farn eithafol. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cynyddol yn dangos cysylltiad rhwng unigolion yn y system gyfiawnder ieuenctid a'r rhai â syniadau eithafol a niwrowahaniaeth. Mae niwrowahaniaeth yn aml yn gwneud i rywun deimlo'n wahanol, yn annerbyniol ac yn groes i'r byd o'u hamgylch, a allai eu harwain i deimlo'n unig. Gall hyrwyddo ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Niwrowahaniaeth er mwyn i bobl deimlo eu bod yn cael eu deall a bod eu hanghenion yn cael eu bodloni, helpu i leihau unigedd a theimladau o wrthod.

**Trosedd Casineb a Gwahaniaethu:** Er bod ystadegau swyddogol y Swyddfa Gartref ar gyfer 2023-2024 yn dangos gostyngiad bychan o 2% mewn Trosedd Casineb yng Nghymru o'i gymharu â'r flwyddyn gynt, mae partneriaid sy'n gweithio yn y gymuned wedi nodi cynnydd mewn trosedd ac iaith casineb (nid oes cofnod o bob un o'r achosion hyn) yn arbennig ar gyfer unigolion LHDTC+, lleiafrifoedd crefyddol a cheiswyr lloches. Mae awdurdodau lleol a thimau cydlyniant rhanbarthol yn gweithio'n agos â'r heddlu a phartneriaid trydydd sector i godi ymwybyddiaeth am sut i roi gwybod am drosedd.

O ganlyniad i'r terfysgoedd a'r anrhefn ar draws rannau o Loegr ac yn dilyn llofruddiaethau Stockport yr haf diwethaf, mae angen rhaglen waith berthnasol i sicrhau fod partneriaid yn cryfhau eu perthnasoedd gwaith â chymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrif Ethnig yn eu hardaloedd. Er nad yw'r un lefel o gasineb hiliol wedi'i nodi yng Nghymru o'i gymharu â nifer o gymunedau ar draws y DU yn dilyn yr ymosodiadau trasig yn Stockport, mae hyn yn bendant wedi cael effaith ar ein cymunedau. Mae nifer o gymunedau ar draws Cymru wedi rhoi gwybod i ni am achosion o wahaniaethu ac wedi nodi eu bod yn teimlo eu bod yn gorfod cyfiawnhau eu hymdeimlad o berthyn o fewn eu lleoliad addysg, gweithle neu fel rhan o'u cymuned.

**Heriau o ran Ymgysylltu â Chymunedau Amrywiol:** Mae cymunedau ar draws Cymru'n datblygu i fod yn fwy amrywiol, yn rhannol yn dilyn gwasgaru ceiswyr lloches ar draws awdurdodau lleol yn y DU ynghyd ag amrywiaeth o gynlluniau adsefydlu. O ganlyniad, mae'n hanfodol bod unrhyw wasanaethau a rhaglenni gwaith a gomisiynir yn adlewyrchu newidiadau mewn demograffeg, yn arbennig mewn ardaloedd gwledig. Mae pwysau gwirioneddol a chanfyddedig ar wasanaethau presennol a natur begynol anrhefn gyhoeddus yn golygu bod yr angen am ymyraethau cydlyniant cymunedol yn fwy nag erioed.

Mae ystod eang o anghenion, ieithoedd a lefelau o ymddiriedaeth mewn awdurdodau yn ein cymunedau amrywiol yng Nghymru. Mae cyrraedd cynulleidfaoedd sydd ar ymylon cymdeithas neu'n gyndyn o ymddiried yn yr awdurdodau'n heriol iawn, yn arbennig yn ystod cyfnodau lle mae'r tensiwn yn uchel. Gallai methiant i ymgysylltu â'r cymunedau hyn arwain at gamddealltwriaeth, rhagor o wrthwynebiad, a'r perygl o helynt yn ystod ymgyrchoedd neu aflonyddwch.

**Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan Bobl Ifanc:** Mae ymateb i Ymddygiad Gwrthgymdeithasol gan Bobl Ifanc sy'n gysylltiedig â phroblemau cydlyniant yn her gynyddol ar draws ein partneriaethau. Gall cynnydd mewn diwylliant gangiau a'r trais

ac arfau cysylltiedig wneud i bobl deimlo'n ofnus, yn unig a dan fygythiad. Gall defnydd peryglus neu anystyriol o e-feiciau ac e-sgwteri mewn cysylltiad â throseddu cyfundrefnol megis llinellau sirol i gyflenwi cyffuriau, achosi rhwystredigaeth a dicter, sy'n peri ofn a phryder. Mae partneriaid wedi nodi nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Ystyrir bod y Llysoedd a Chyfiawnder Ieuenctid yn gyndyn o gosbi pobl ifanc; fodd bynnag, drwy beidio â chynnig cosbau mwy llym (pan fydd pob ymyrraeth arall wedi methu), mae'n rhoi'r argraff i'r gymuned ehangach nad yw Cynghorau a'r Heddlu'n mynd i'r afael â'r broblem hon. Yn sgil y diffyg mesurau ataliol, mae cymunedau'n teimlo bod awdurdodau'n eu gadael i lawr yn ogystal â'r bobl ifanc gysylltiedig, sy'n achosi dicter a diffyg ffydd mewn cyrff cyhoeddus.

Mae'r Swyddfa Gartref yn ymrwymo i'r syniad o gyflwyno Canolfannau Dyfodol Ifanc a Phartneriaethau Atal mewn ymgais i fynd i'r afael â'r pryderon uchod. Fodd bynnag, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt yng Nghymru ynghylch y ffordd orau i gyflawni hyn o ystyried y strwythurau sydd eisoes ar waith. Mae partneriaid yng Nghymru'n awyddus i Lywodraeth y DU ddefnyddio isadeiledd cyfarfod/llywodraethu presennol i osgoi dyblygu adnoddau ac ymdrechion. Mae trafodaethau'n parhau mewn perthynas â hyn.

**Ysgolion:** Mae ein partneriaid wedi nodi pryderon am ddiffyg dull cydlynol i fynd i'r afael â chasineb hiliol, rhynghiliol, gwahaniaethol ac achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ysgolion. Nodwyd anghysondeb o ran negeseuon ac adroddiadau hefyd.

Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i roi'r gorau i ariannu Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan, a oedd yn darparu fframwaith a rhaglen genedlaethol ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd yng Nghymru, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd wedi ymrwymo i barhau i ddarparu cefnogaeth i ysgolion, ond ni fydd hyn yn dilyn rhaglen gydlynol mwyach, a bydd yn seiliedig ar angen lleol.

O ystyried y dylanwadau allanol cynyddol ar blant, mae dymuniad cryf gan bob partner i ddatblygu a chynnal perthnasoedd cadarnhaol gyda phobl ifanc. Mae gweithio ochr yn ochr â lleoliadau addysg yn allweddol i hyn er mwyn helpu i nodi a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau yn eu tarddiad. O ganlyniad, ymddengys bod penderfyniad LlC i roi'r gorau i ariannu'r rhaglen Cyswllt Ysgolion yn mynd yn groes i Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a'u bod yn methu cyfle i sicrhau dull cenedlaethol ar gyfer addysgu pobl ifanc ar faterion yn ymwneud â chydlyniant cymdeithasol.

**Dylanwadau ar-lein:** Er nad yw'r ddogfen hon yn bwriadu mynd i'r afael â dylanwadau ar-lein yn benodol, mae'r effaith a'r heriau a wynebir gan awdurdodau lleol a phartneriaid i ymateb i wybodaeth anghywir yn sylweddol. Mae'r cynnydd mewn gwybodaeth anghywir, yn arbennig ar-lein, wedi cyfrannu at naratif negyddol mewn perthynas ag ymfudo, LHDTC+, casineb at fenywod a gwrth-semitiaeth, sydd wedi achosi tensiwn a gelyniaeth.

Cydnabyddir bod dylanwadau ar-lein yn cyfrannu'n sylweddol at densiynau cymunedol a chydlyniant cymunedol yn fwy eang.

Defnyddir platfformau penodol megis Facebook, Discord, X (Twitter gynt) ac eraill i rannu, annog a bytholi naratifau negyddol. Yn aml iawn, mae siambr atsain yn arwain at fewnoli negeseuon a ffocws ar duedd ac ofnau pobl, a gellir defnyddio hyn mewn gwahanol ffyrdd i nodi cyfle, annog naratif penodol am gyfnod hir neu weithredu i sbarduno ymateb ac emosiynau.

Mae gwybodaeth anghywir yn lledaenu'n gyflym, mae negeseuon a gaiff eu huwchlwytho ar y cyfryngau cymdeithasol yn aml o fewn y ffiniau cyfreithiol ac yn debygol o ymddangos fel ffeithiau. Caiff cymunedau lleol eu heffeithio a'u dylanwadu gan negeseuon ar-lein yn lleol ac ar draws y byd. Mae naratifau negyddol yn sbarduno ofn, diffyg ymddiriedaeth a chasineb. Mae pob un o'n partneriaid wedi rhannu pryderon dwys â ni mewn perthynas â'r effaith a gaiff natur afreoledig cyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill ar fywydau ac ymddygiadau lleol, dyma rai achosion lle mae'r cyfryngau cymdeithasol wedi galluogi neu gefnogi gweithredoedd:

- Mewn ardaloedd lle mae heriau mewn perthynas â thlodi a diweithdra, mae'r cyfryngau cymdeithasol yn aml yn gweithredu fel sŵn cefndir sy'n cefnogi teimladau o anghyfiawnder mewn perthynas ag anghydraddoldeb cymdeithasol. Mae gwybodaeth anghywir a materion cymhleth eraill yn berwi'n araf nes bydd digwyddiad yn sbarduno pobl i gymryd camau pellach, megis pan fu farw dau fachgen ifanc mewn gwrthdrawiad e-feiciau yn Ely, Caerdydd neu'r wylnos a gynhaliwyd er cof am fachgen ifanc lleol yn Mayhill, Abertawe, a arweiniodd at derfysgoedd ac anrhefn.
- Gwyddom fod grwpiau asgell dde eithafol trefnedig yn annog gweithredu ac ymgyrchu ar y cyd gan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i rannu manylion gweithgarwch sydd ar y gweill ag unigolion o'r un meddylfryd, nad ydynt o bosibl yn gysylltiedig â'r ardal leol. Gwelwyd achos o hybu cefnogaeth i wrthwynebu cynllun adsefydlu'r Swyddfa Gartref yn Llanelli a Phenalun yn dilyn diffyg ymgysylltiad â'r gymuned cyn adsefydlu ceiswyr lloches.
- Mae grwpiau neu ystafelloedd sgwrsio ar-lein yn defnyddio gwybodaeth ffynhonnell agored a gasglwyd ac a rannwyd gyda'r bwriad o annog gwarcheidwadaeth. Er enghraifft, enwi a rhannu cyfeiriadau troseddwyr rhyw hysbys neu rai a amheuir. Er nad yw grwpiau o bosibl yn annog trais yn agored, eu bwriad yw annog actifiaeth lleol.

**Cymuned Ehangach:** Mae angen cynyddol i ddeall effaith pryderon cymunedol ehangach mewn perthynas â phroblemau byd-eang/gwleidyddol ehangach a deall yr effaith bosibl ar gymunedau a gwasanaethau lleol. Dyma rai materion cyfredol:

- Rwsia - Wcráin
- Israel-Iran
- Gwrthwynebu ceiswyr lloches
- Tommy Robinson / Donald Trump / Elon Musk
- Andrew Tate / Casineb at Ferched
- Cynnydd mewn atgyfeiriadau Prevent

**Cydbwyso Gwasanaethau Rheolaidd ag Ymateb i Argyfwng:** Yn ystod cyfnodau o aflonyddwch, mae'n rhaid i wasanaethau cyhoeddus gydbwyso'r angen i ddarparu gwasanaethau rheolaidd â'r galw am ymateb i argyfwng. Fodd bynnag, gall rheoli diogelwch y cyhoedd olygu tynnu adnoddau o waith bob dydd, megis gwasanaethau cymdeithasol, rheoli gwastraff, a swyddogaethau hanfodol eraill a allai amharu ar wasanaethau bob dydd. Gall yr amhariad hwn arwain at neu sbarduno anfodlonrwydd ymhlith y cyhoedd ac effaith fwy hirdymor ar ffydd y cyhoedd ac enw da'r Cyngor.

Mae'n berthnasol ar y pwynt hwn i amlygu'r angen i ystyried cyngor a chanllawiau Swyddogion Dylunio i Atal Troseddau (DOCO) mewn perthynas ag unrhyw gynlluniau i adeiladu datblygiadau newydd (gan gynnwys sefydliadau manwerthu, domestig ac addysgol). Bydd y cyngor hwn yn ystyried cynllun y cynigion ac yn ceisio osgoi strydoedd cefn tywyll neu ardaloedd agored mewn ysgolion. Gall ystyried diogelwch adeiladau yn ystod y broses gynllunio leihau risgiau i'r dyfodol. Yn anffodus, yn sgil diffyg deddfwriaeth yn y maes hwn, mae'n ofynnol i gwmnïau adeiladu preifat ystyried cyngor DOCO, ond nid oes gofyn iddynt gydymffurfio ag o, sy'n creu sefyllfa ddiamddiffyn i'w rheoli'n lleol gan awdurdodau lleol a'r heddlu.

**Cyfathrebu:** Er bod nifer o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn nodi llwybrau uwchgyfeirio a pherthnasoedd gwaith rhagorol rhwng asiantaethau partner yn ystod argyfyngau, cydnabyddir gan bartneriaid (gan gynnwys Cynghorau, Gwasanaethau Tân a'r Heddlu) bod cyfathrebu mewn modd clir a chyson, yn fewnol a gyda phartneriaid allanol, yn gallu bod yn heriol ac yn aml yn cael ei arwain gan berthynas. Gall y dull tameidiog hwn arwain at oedi o ran rhannu gwybodaeth hanfodol â'r cyhoedd ac asiantaethau eraill.

Mae'n rhaid rhannu gwybodaeth â chymunedau i'w helpu i ddeall pam y cymerwyd camau penodol a rheoli disgwyliadau'r cyhoedd. Gall diffyg cyfathrebu neu ddim cyfathrebu o gwbl waethygu pryderon y cyhoedd, a all annog lledaeniad gwybodaeth anghywir a rhwystro ymateb cydlynol.

Yn ôl adborth a gasglwyd yn ystod aflonyddwch haf 2024, nododd rai Cynghorau, er y rhoddwyd sicrwydd nad oedd y wybodaeth yn awgrymu nad oedd bygythiad i fusnesau yn eu hardal, penderfynodd rai sefydliadau gau eu hadeiladau. Mae hyn wedi arwain at straen ar gludiant lleol, colli refeniw ac effaith ar enw da busnesau. Mae partneriaid wedi nodi bod angen sicrhau eu bod yn gwella hyder busnesau er mwyn lleihau effaith gwybodaeth anghywir sy'n gallu achosi amhariad sylweddol.

**Cyfyngiadau o ran Gallu ac Adnoddau:** Mae'r mwyafrif o wasanaethau cyhoeddus yn ceisio ymdopi â phrinder staff a chyllidebau tynn. Yn sgil prinder staff, yn arbennig mewn meysydd allweddol megis ymgysylltu â'r gymuned a chynllunio rhag argyfwng, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau enfawr. Gall cyfyngiadau o ran gallu arwain at ddiffyg arbenigedd, amseroedd ymateb hirach, llai o allu i gasglu gwybodaeth, darparu sicrwydd a chefnogaeth ar lawr gwlad, ac anhawster o ran cynnal ymdrechion yn ystod cyfnodau hir o aflonyddwch.

**Cyllid:** Mae cryn dipyn o'r cyfyngiadau o ran gallu ac adnoddau a amlinellir isod o ganlyniad i ddiffyg cyllid. Bydd y pwyllgor yn gyfarwydd iawn â'r pwysau sylweddol a wynebir gan bob gwasanaeth cyhoeddus a gwasanaethau a ariannir gan grantiau yn benodol.

Mae gweithgareddau cydraddoldeb a chydlyniant cymunedol a ddarperir mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol yn ddibynnol iawn ar gyllid gan y llywodraeth. Mae pryder cynyddol ynghylch y diffyg eglurder o ran cynlluniau llywodraeth ganolog a Chymru i ddyrannu arian ar gyfer cefnogi prosiectau amrywiol, gan gynnwys ffrydiau ariannu Llywodraeth Cymru ar gyfer cronfeydd gwrth-hiliol diwylliant, treftadaeth a chwaraeon; BAWSO a Lleiafrifoedd Ethnig a chyllid craidd Timau Cymorth Ieuenctid Cymru ar gyfer cefnogi pobl ifanc a theuluoedd. Mae ansicrwydd hefyd mewn perthynas â dyfodol rhai o gronfeydd y Swyddfa Gartref, gan gynnwys y Gronfa Strydoedd Mwy Diogel gynt, y gronfa Trais Ddifrifol ac effaith anhysbys mentrau sydd ar y gweill, megis Partneriaethau Atal.

Yn absenoldeb cyllid llywodraeth leol craidd, bu'n rhaid dibynnu ar gyllid ffyniant gyffredin a ffyniant bro llywodraeth ganolog dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Daeth cyfran helaeth o'r cyllid hwn i ben ym mis Rhagfyr 2024.

Mae prosiectau a ariennir gan ffrydiau gwaith eraill, megis y Loteri Genedlaethol a Chwaraeon Cymru (drwy Actif Gogledd Cymru) wedi gweld gostyngiad mewn cyllid a fydd yn cael effaith uniongyrchol na ellir ei hosgoi yng Nghymru. Mae pwyslais cynhwysol y gweithgareddau a ddarperir drwy'r cyllid hwn wedi helpu i leihau tensiynau ac annog cydlyniant o fewn ein cymunedau.

Mae'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol i gefnogi a chydymffurfio â chyfrifoldebau yn ymwneud â chydraddoldeb yn cynyddu, ond, mae'r gallu i weithredu'n aml iawn yn brin.

## Enghreifftiau o'r arfer orau

**Monitro Cydlyniant Cymdeithasol:** Cynhelir cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol ar draws y bartneriaeth yn rheolaidd.

Er bod amlder cyfarfodydd o bosibl yn amrywio ar draws Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, mae'r wybodaeth isod yn cynnig cipolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo yn y maes hwn. Ni fwriedir i hon fod yn rhestr drylwyr:

- Cyfarfod amlasiantaeth lleol wythnosol - adolygu tensiynau cymunedol.
- Cyfarfod Tai wythnosol - yr heddlu, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Chynghorau.
- Monitro tensiwn mewn perthynas ag adsefydlu'n fisol (ond yn amlach lle bo angen)
- Cyfarfod misol rhwng Swyddogion y Cyngor, Arweinydd y Cyngor ac Arweinwyr Mosg lleol.

- Cyfarfodydd Partneriaid Diogelwch Cymunedol chwarterol - mae Cydlyniant Cymunedol yn eitem sefydlog ar y rhaglen.
- Cyfarfod Trosedd Casineb a Thensiynau Cymunedol Chwarterol, Llywodraeth Cymru.
- Grŵp Rhwydwaith Prevent Cymru Chwarterol, Llywodraeth Cymru.
- Paneli Sianel
- Cynrychiolaeth CLILC yn y Swyddfa Gartref, Grŵp Ymgysylltu Uwch y Cyngor Lloches ac Adsefydlu. Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd i geisio sefydlu is-grŵp newydd i ganolbwyntio ar Gydlyniant Cymunedol.

**Heriau ac Ymwybyddiaeth Ar-lein:** Mae Awdurdodau Lleol yn gweithio i ddatblygu sgiliau meddwl beirniadol y cyhoedd gan godi ymwybyddiaeth am gasineb ar-lein drwy ddigwyddiadau ymgysylltu, hyfforddiant a'r cyfryngau cymdeithasol.

**Codi Ymwybyddiaeth a Rhoi Gwybod am Drosedd Casineb:** Mae'r Heddlu, Awdurdodau Lleol, ysgolion a grwpiau cymunedol yn cydweithio i helpu i godi ymwybyddiaeth a rhoi gwybod am droseddau casineb.

**Darpariaeth Hyfforddiant:** Mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol wedi trefnu hyfforddiant ar gyfer amrywiaeth o gynulleidfaoedd ar sawl pwnc gwahanol, er enghraifft, Cydlyniant yn Ein Cymunedau, darparu gwybodaeth am brosiectau llwyddiannus; Pŵer Iaith - sut gallai'r geiriau a ddefnyddiwn beri niwed.

Mae gwefan Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru'n nodi digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddiant a allai fod yn berthnasol i ymarferwyr sy'n gweithio yn y maes hwn.
Mae'r Rhwydwaith hefyd yn cynnal gweminarau a gweithdai drwy gydol y flwyddyn i gefnogi ymarferwyr i ddeall pynciau llosg perthnasol sy'n cael effaith ar ddiogelwch cymunedau.
Mae'r Gwobrau Cymunedau Mwy Diogel blynyddol yn cydnabod prosiectau a phobl anhygoel ar draws Cymru, sy'n gweithio i gysylltu cymunedau a'u gwneud yn fwy diogel. Ymwelwch â'n gwefan i gael rhagor o wybodaeth.

**Ymwybyddiaeth o ymgyrchoedd a mentrau allweddol:**
Mae gwasanaethau cyhoeddus yn hyrwyddo ac yn cymryd rhan i ryw raddau yn y canlynol:

- Diwrnod Cofio'r Holocost
- Mis Hanes LHDT
- Wythnos Ffoaduriaid
- Mis Hanes Sipsiwn, Roma a Theithwyr
- Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb
- Wythnos Ymwybyddiaeth Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Wythnos Diogelwch Cymunedol

**Polisi:** Sefydlu Cydlyniant Cymunedol o fewn Polisïau e.e. Cynllun Cydraddoldeb ac arferion ar draws Awdurdodau Lleol gyda chefnogaeth Timau Cydlyniant Rhanbarthol.

**Canolfan Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru:** Sefydlwyd y Ganolfan Amlddiwylliannol yn 2022, gyda dyraniad cyllid am 3 mlynedd drwy gronfa Treftadaeth a Chwaraeon Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-Hiliol Llywodraeth Cymru, er mwyn mynd i'r afael ag anghenion cymunedau Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Mae'r dull cydweithredol a arweinir gan bartneriaid wedi creu'r strwythur strategol sydd ei hangen i rymuso Cymunedau Lleiafrif Ethnig Gogledd Ddwyrain Cymru i arwain ar y newid yr hoffent ei weld - Trosolwg o Ganolfan Amlddiwylliannol 2025.

PDF
Multi-cultural Hub Aug24.pdf

**Prosiect Trais Difrifol / Strydoedd Mwy Diogel:** Gweler yr adroddiadau sydd ynghlwm, mae'r prosiectau hyn a phrosiectau tebyg yn ymgysylltu â phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu dylanwadu gan naratifau eithafol.

PDF Serious Violence Funding. Outreach Pa

PDF Safer Streets5 ASB Project.Wrexham. Jan

PDF Safer Streets 5. ASB Wrexham. July 24.pdf

PDF Safer Streets ASB.Holywell, Outreac

**Astudiaeth Achos: Walsall for All**
Yn dilyn cyfres o ddigwyddiadau heriol yn Walsall, Lloegr (llofruddiaeth Bescot, trywaniadau mosg, bygythiadau bom, ac ati), mae sefydliadau partner wedi mabwysiadu'r Dull Cymunedau Gwydn. Mae'r dull hwn yn canolbwyntio ar weithio ar y cyd mewn modd sy'n maethu perchnogaeth ac urddas yn y gymuned. Am fwy o wybodaeth ewch i: Walsall for All

## Pa gefnogaeth mae Llywodraeth Cymru'n ei darparu i grwpiau a sefydliadau cymunedol a nodi cyfleoedd i ddarparu cefnogaeth ychwanegol.

**Cyllid a Chynaliadwyedd:** Mae'n bosibl y bydd natur tymor byr cyllid yn cael effaith niweidiol ar y rhaglen cydlyniant cymunedol. Byddai unrhyw gyfnod sy'n llai na 3 blynedd yn ei gwneud yn anodd i gael effaith hirdymor. Er mwyn datblygu ymddiriedaeth, mae'n bwysig canolbwyntio llai ar ryngweithiadau arwynebol tymor byr gyda grwpiau cymunedol, ac yn hytrach, buddsoddi mewn datblygu perthnasoedd hirdymor â'r cymunedau pwysicaf. Mae angen cynaliadwyedd gwell o ran cyllid i gefnogi hyn.

Mae prosiectau a rhaglenni gwaith a gefnogir yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu'n anuniongyrchol, megis yr enghreifftiau isod, ynghyd â phrosiectau

cymunedol/cymdeithasol eraill, yn werthfawr iawn gan eu bod yn darparu cyfleoedd i greu perthnasoedd cynaliadwy ac ystyrlon â chymunedau sydd angen cefnogaeth.

- Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol Llywodraeth Cymru
- Canolfan Amlddiwylliannol Gogledd Ddwyrain Cymru
- Rhaglenni Cymuned i'r Ysgol
- Actif Gogledd Cymru

**Cefnogaeth ar gyfer Ardaloedd Gwledig:** Mae'r mwyafrif o gyllid ac adnoddau/gwasanaethau'n tueddu i ganolbwyntio ar ardaloedd trefol, mae ar gymunedau gwledig ar y llaw arall angen cefnogaeth wedi'i theilwra i fynd i'r afael â heriau unigryw.

**Gwella'r arweinyddiaeth gan Lywodraeth Cymru a chryfhau'r cydlyniant gyda Llywodraeth y DU:** Mae materion megis casineb ar-lein, polisïau ymfudo a heddlua'n dod o dan bwerau Llywodraeth y DU. Mae angen rhagor o gydweithrediad er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn ar lefel genedlaethol. Byddem yn croesawu Fframwaith Cydlyniant cryfach gan Lywodraeth Cymru a fyddai'n sicrhau cysylltiadau effeithiol rhwng y ddwy weinyddiaeth ac yn darparu goruchwyliaeth ac arweinyddiaeth glir wedi'u hysgogi gan brosesau ar draws Cymru. Byddai fframwaith cryf hefyd yn cyfyngu gwaith ar wahân ac yn sicrhau fod gwybodaeth a risgiau'n cael eu rhannu a'u rheoli a bod gwersi'n cael eu dysgu mewn modd mwy cydlynol.

**Cynyddu Gallu ar gyfer Grwpiau Cymunedol:** Nid oes gan nifer o sefydliadau llawr gwlad ddigon o adnoddau i wneud cais am gyllid neu ymestyn eu gwaith. Gallai hyfforddiant a phrosesau cyllid syml helpu.

## Crynodeb

Hoffai'r Rhwydwaith gydnabod y buddsoddiad sylweddol o adnoddau, polisïau ac egni mewn cymunedau gan bob partner ar draws Cymru. Mae nifer o unigolion yn mynd gam ymhellach i ddatblygu perthnasoedd, cefnogi prosiectau a chreu ardaloedd gwell a mwy diogel i bobl fyw a gweithio yno. Fodd bynnag, mae cydlyniant cymdeithasol yn faes risg sy'n ymofyn arweinyddiaeth gysylltiedig a buddsoddiad ariannol gyda pholisïau clir wedi'u halinio'n genedlaethol er mwyn cryfhau dull partneriaeth ac osgoi gwaith ar wahân.

Fel Rhwydwaith, hoffem weld Fframwaith gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â strategaethau cyfathrebu a chanllawiau cadarn cysylltiedig ar gyfer darpariaeth leol er mwyn sicrhau aliniad rhwng gwaith lleol a chenedlaethol.

This response has been written by the Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith, Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru ar ran aelodau'r Rhwydwaith. Mae'r Rhwydwaith yn cynnwys partneriaid sy'n ymwneud â darparu diogelwch cymunedol ledled Cymru gan gynnwys Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd, Gwasanaethau'r Heddlu, Gwasanaethau Tân ac Achub, Cynghorau, Cymdeithas Llywodraeth Leol

Cymru (CLILC) y Gwasanaeth Prawf a'r Trydydd Sector (gan gynnwys Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig).

**Ymateb a gyflwynwyd 27 Chewfror 2025**

Helen Hill
Rheolwr Datblygu Busnes a Rhwydwaith
Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
cymunedaumwydiogel@wlga.gov.uk

Rhwydwaith Cymunedau Mwy Diogel Cymru
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Un Rhodfa'r Gamlas
Heol Dumballs
Caerdydd
CF10 5BF

**Dolenni perthnasol**

Y Comisiwn Annibynnol ar Gymuned a Chydlyniant

Hyfforddiant Prevent ar gyfer sectorau â dyletswydd statudol - cwrs ymwybyddiaeth (Atal y risg o derfysgaeth neu gefnogi terfysgaeth).

Hyfforddiant gloywi Prevent at gyfer unigolion sydd eisoes wedi cwblhau'r cwrs ymwybyddiaeth- Cwrs Ymwybyddiaeth Gloywi

Hyfforddiant Prevent ar gyfer busnesau preifat - hyfforddiant Prevent GOV.UK ac ACT Early

Prevent - animeiddiad esboniadol yma (beth yw Prevent a ble i gael cymorth am bryderon yn ymwneud â radicaleiddio)

HOPE not hate - Ymchwilio, Ymgyrchu a Chefnogi Cymunedau i feithrin gobaith a gwrthwynebu eithafiaeth.

Adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn ystyried pryderon cynyddol ynghylch gangiau sy'n camfanteisio ar blant "Pan fydd pawb yn anwybyddu ni, mae'r gangiau'n achub ar y cyfle"

Mae camfanteiswyr yn aml yn targedu'r rhai nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant a phobl niwrowahanol, yn ogystal â'r rhai sydd â diddordeb mewn safbwyntiau eithafol / damcaniaethau cynllwyn. Gall hyrwyddo dealltwriaeth o Niwrowahaniaeth helpu pobl i dderbyn y gefnogaeth briodol a theimlo'n llai unig - e-Ddysgu - Niwrowahaniaeth Cymru | Neurodivergence Wales | Tîm Niwrowahaniaeth Cymru

Stop Hate UK - Grwpiau Cymorth Lleol a Chymunedol

Mae casineb yn brifo Cymru Mae casineb yn brifo Cymru | LLYW.CYMRU

Mae ymchwil gan Brifysgol Efrog yn edrych ar yr adnoddau sydd eu hangen ar athrawon ysgol i fynd i'r afael â heriau misogyny ar-lein- University of York

Ni ellir anwybyddu effaith tlodi parhaus, ar unigolion ac ar ardaloedd wrth ystyried cydlyniant cymdeithasol - UK Poverty 2025: The essential guide to understanding poverty in the UK | Joseph Rowntree Foundation

Effaith dylanwad rhyngwladol ar gyfryngau cymdeithasol a'r effaith uniongyrchol ar wasanaethau a chymunedau yng Nghymru- https://www.bbc.co.uk/news/articles/c78xdxzyxm2o